Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ystod oedran 0 hyd at 25

Bydd gwasanaethau iechyd ac addysg yn cydweithio i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0 i 25. Bydd awdurdodau lleol yn ceisio cyngor a chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol, lle y mae'n berthnasol i'r dysgwr unigol.

Gall awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ofyn i'r gwasanaeth iechyd ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y dysgwr. Os oes un, rhaid i'r gwasanaeth iechyd ei sicrhau.

Os yw'r gwasanaeth iechyd o'r farn bod gan blentyn ADY (neu fod hynny'n debygol), rhaid dynnu sylw'r awdurdod lleol priodol at hyn, lle mae'r gwasanaeth o'r farn mai dyna fyddai orau i'r plentyn.

Cynllun unedig

Os yw triniaeth neu wasanaeth perthnasol wedi cael ei nodi, fe'i cynhwysir fel darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) o fewn y cynllun datblygu unigol (CDU). Bydd DDdY o'r fath yn ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig statudol yn hybu cysondeb a thegwch, er mwyn sicrhau y bydd ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hyrwyddo deilliannau gwell ac yn lleihau anghydraddoldebau.

Y Gymraeg

Bydd dyletswydd newydd ar gyrff y GIG i benderfynu a ddylid darparu triniaeth neu wasanaeth (sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc) drwy'r Gymraeg ac, os felly, i nodi hynny'n benodol yn y CDU ac i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno.

Cod ADY gorfodol

Bydd y Cod ADY yn darparu canllawiau ar y system ADY newydd y mae'n rhaid i wasanaethau iechyd roi sylw iddynt.

Hawliau clir a chyson i apelio

Bydd y Tribiwnlys Addysg yn gallu gwneud argymhellion i'r gwasanaeth iechyd ac ynghylch agweddau iechyd DDdY. Bydd yn ofynnol i'r gwasanaeth iechyd roi gwybod i'r Tribiwnlys Addysg am unrhyw argymhellion y mae'n ddarostyngedig iddynt. Er mai dim ond mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno yn unig y gall y Tribiwnlys Addysg wneud Gorchymyn sy'n rhwymo'r awdurdod lleol, byddem yn disgwyl i'r awdurdod lleol geisio cydweithredu â gwasanaethau iechyd er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Gorchymyn. Bydd rôl gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig yn hyn o beth.

Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach

Os yw plentyn, ei rhieni/gofalwyr neu berson ifanc yn anhapus ag asesiad, triniaeth neu wasanaeth a ddarperir gan y GIG, gallant godi eu pryderon drwy weithdrefn y GIG, 'Gweithio i Wella'. Bydd rôl gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig hefyd.

Mwy o gydweithredu

Bydd y ddyletswydd sydd ar y gwasanaeth iechyd i gyflenwi DDdY benodol sydd wedi'i chynnwys mewn CDU yn sicrhau bod eglurder a sicrwydd ynghylch cyflwyno'r ddarpariaeth.

Bydd penodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig ym mhob gwasanaeth iechyd yn helpu i gryfhau'r cyswllt a gweithredu ar y cyd rhwng y gwasanaeth iechyd a'r awdurdod lleol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG34035